Canllawiau Cred – Rhagair

Yn yr Oruwchystafell

‘A chyn gwyl y pasg, yr Iesu yn gwybod ddyfod ei awr ef i ymadael â’r byd hwn at y Tad, efe wedi caru yr eiddo y rhai oedd yn y byd, a’u carodd hwynt hyd y diwedd’ (Ioan 13:1).

Rhagair

Yn y Rhagymadrodd i'r gyfrol gyntaf, cyfeiriwyd at y ffaith fod llawer o Gristnogion da y dyddiau hyn yn ei chael hi'n anodd dros ben i roi amser o'r neilltu i weddïo fel y carent. Yn ystod y weinidogaeth fer a gafodd Iesu Grist ar y ddaear – ychydig dros dair blynedd – fe roes i'w ddisgyblion y cymorth gorau y gallai ef ei hun feddwl amdano i'w cynorthwyo i wneud hynny. Ac nid i'r disgyblion yn unig y dymunai i'r cymorth hwnnw fod. Roedd am i'r sawl a ddeuai i gredu ynddo 'trwy eu hymadrodd hwy' gael mantais ohono'n ogystal. Pa werth a ellir ei roi ar wybodaeth o'r fath? Ymgais a geir yn y gyfrol hon, fel yn y gyfrol flaenorol, i roi sylw i rai o brif elfennau'r ddysgeidiaeth honno.

Fe'i rhoddwyd yn bennaf ar ddau achlysur nodedig yn ei hanes: y tro cyntaf ar ddechrau ei weinidogaeth pan draddododd y Bregeth ar y Mynydd. Ceir yr hanes hwnnw yn Efengyl Mathew, penodau 5 i 7. Digwyddodd yr ail dro yn yr Oruwchystafell y noson olaf a dreuliodd gyda'i ddisgyblion cyn ei groeshoelio y diwrnod canlynol. Ioan a gafodd y fraint o groniclo'r hanes hwnnw ym mhenodau 14 i 17 o'i Efengyl.

Gwnaeth gyfeiriadau eraill at le a swyddogaeth gweddi ym mywydau'i ddisgyblion. Byddwn yn cyfeirio at rai ohonynt. Ond, yn ddi-ddadl, yn yr Ysgrythurau hyn ar ddechrau ac ar ddiwedd ei weinidogaeth y ceir y cyfoeth pennaf.

Wrth ddymuno gwybodaeth am yr hyn a ddysg yr Ysgrythur ar bynciau gwahanol, ein tuedd yw edrych ar yr adnodau sy'n cyffwrdd â'r pwnc: ceisio'u crynhoi ac yna egluro'u hystyr orau y gallwn. Nid bob amser y rhoddwn y sylw dyladwy i gyd-destun yr adnodau hynny. Ac mewn perthynas â rhai rhannau o ddysgeidiaeth Iesu Grist, y mae'r cyd-destun yn bwysig eithriadol.

Yn y gyfrol gyntaf, wrth inni geisio gwerthfawrogi Gweddi'r Arglwydd a'i lleoliad yn y Bregeth ar y Mynydd, gwnaethom ein gorau i barchu'r ystyriaeth hon, er bod hynny'n golygu ein bod o'r herwydd wedi gorfod bwrw cipolwg dros bob rhan o'r Bregeth. Bydd yn rhaid gwneud rhywbeth tebyg eto pan edrychwn ar y ddysgeidiaeth a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion yn yr oruwchystafell. Er mai dyrnaid o adnodau sy'n cyfeirio'n benodol at weddi, bydd yn rhaid ystyried yn ofalus gynnwys penodau 14 i 17 yn Efengyl Ioan ar eu hyd cyn y gallwn obeithio gwneud cyfiawnder â'r adnodau hynny.

I'n paratoi ar gyfer y dasg, carem dynnu sylw at un gwahaniaeth mawr sydd rhwng y cyfarwyddiadau a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion yn y Bregeth ar y Mynydd

a'r cyfarwyddiadau a roes iddynt yn yr oruwchystafell. Yng Ngweddi'r Arglwydd fe roes Iesu Grist weddi a oedd wedi ei pharatoi yn barod i'w ddisgyblion ei gweddïo. Yn hyn o beth does dim gwahaniaeth mewn gwirionedd rhwng y weddi hon a gweddi y gall mam neu dad ei chyfansoddi a'i rhoi i blentyn i'w gweddïo neu weddi y gellir ei chodi o lyfr o weddïau, dim ond inni gofio mai'r Arglwydd Iesu Grist yw'r awdur y tro hwn. Mae hynny'n newid y sefyllfa'n llwyr. Gweddi yw hon a luniwyd gan Fab Duw! Mae hi yno'n barod yn disgwyl amdanom. Gallwn fynd â hi ar ein hunion at ein Tad nefol a'i gweddïo'n hyderus – yn ei enw!

Nid am weddïau felly y soniodd Iesu Grist yn yr oruwchystafell. I'r gwrthwyneb yn hollol, gweddïau fyddai'r rhain y byddai'n rhaid eu ceisio ganddo ef ac yna'u gweddïo 'yn ei enw'. Gweddïau a fyddai'n cymryd amser i ddod o hyd iddynt. Gweddïau fydd yn rhagdybio ein bod wedi treulio peth amser, o leiaf, mewn cymundeb ag ef a chymryd ein harwain ganddo. Egluro hyn fydd un o ddibenion pennaf y gyfrol hon.

Rhaid inni eto, yn y dechrau, bwysleisio mai'r unig bobl a all werthfawrogi'r ddysgeidiaeth a geir yn nisgrifiad Ioan o'r hyn a ddysgodd Iesu Grist i'w ddisgyblion ar y noson olaf cyn eu gadael yw y rhai hynny sydd wedi rhoi eu hunain iddo ac sy'n dymuno gwneud ei ewyllys. I bawb arall, cwbl annerbyniol yw unrhyw sôn am roi eu bywydau yn ôl i'r hwn a'n creodd gyda'r union fwriad hwnnw mewn golwg.

I'r Arglwydd Iesu Grist roedd gwasanaethu felly yn fwyd ac yn faeth i'w enaid. 'Y mae gennyf fi fwyd i'w fwyta yr hwn ni wyddoch chwi amdano' (Ioan 4:32) meddai wrth ei ddisgyblion unwaith pan oeddent yn pryderu amdano am na chafodd luniaeth yn eu habsenoldeb. Aeth yn ei flaen i egluro beth ydoedd: 'Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorffen ei waith ef.'

Yn ddiweddarach, eglurodd sut y deuai'r profiad hwn yn brofiad i eraill a oedd yn gwrando arno: 'Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf.' Byddai'n eu cymryd mewn llaw ac yn eu dysgu. Eglurodd iddynt beth oedd ei gymhwyster i allu gwneud hynny. Dyna'n union wnaeth ef yn ei berthynas â'i Dad nefol. 'Canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon.' Gorffen ei waith oedd ei ofal: gwneud yr hyn y byddai'r Tad yn ei wneud. 'Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid ohonof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd.'

Byddai dod yn Gristion yn golygu eu bod yn rhoi awenau eu bywyd yn ei law ef a bod yn ddarostyngedig iddo. Caent hwythau brofi'r tangnefedd a brofodd ef. 'A chwi a gewch orffwystra i'ch eneidiau.' Un tebyg iddo ef yr oedd am iddynt hwythau fod.

Gallasai fod wedi cyfeirio at y cymhwyster arall a roddwyd iddo gan y Tad: 'Pob peth a roddwyd i mi gan y Tad.' Crybwyllodd hynny, ond y rheswm a roes dros eu hannog i ddod ato a phrofi'r tangnefedd a brofodd efe oedd mai perthynas felly fu rhyngddo ef a'i Dad. 'Addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon.'

Ar ddiwedd y rhagymadrodd i'r gyfrol gyntaf cyfeiriais at y profiad o ollyngdod a gefais pan addawodd y ffisigwr, yr ymgynghorais ag ef ynghylch yr afiechyd oedd arnaf, y cymerai fi dan ei ofal. Erbyn hyn aeth yn agos i chwe blynedd heibio oddi ar pan gwrddais ag ef gyntaf. Bob tro y gwelais ef yn y cyfamser, cefais achos i ryfeddu at ei amynedd, ei drylwyredd a'i barodrwydd i ystyried unrhyw feddyginiaeth a allai fod o gymorth i mi. Peth mawr yw bod dan ofal ffisigwr da.

Os yw'n beth gwerthfawr mewn perthynas â'r 'babell' y trigwn ynddi dros dro tra byddwn ar y ddaear, pa faint mwy gwerthfawr yw dod o hyd i Ffisigwr eneidiau sy'n cynnig meddyginiaeth a bery byth? Mae ei angen ar bob un ohonom. Dyma'i eiriau: 'Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond y rhai cleifion . . . Canys ni ddeuthum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid, i edifeirwch' (Mathew 9:12, 13b). 'Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch' (Mathew 11:28).